Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

12 Chwefror 2019

Annwyl Nick

Gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror, ynghylch yr adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar wariant y GIG ar staff asiantaeth.

Fel y gwyddoch, pan drafododd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei flaenraglen waith ar 9 Ionawr, cytunodd yr Aelodau ar raglen i graffu ar bob bwrdd iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth dros y 12 mis nesaf. Fel rhan o hyn, byddwn yn craffu ar sut y maent yn ymateb i anghenion ar unwaith a phwysau ariannol tra'n addasu i ddarparu modelau gofal yn y dyfodol a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach', a fydd, heb unrhyw amheuaeth, yn tynnu sylw at ba mor ddibynnol yw rhai ohonynt ar staff asiantaeth.

Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth hefyd gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar 23 Ionawr. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddynt weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu strategaeth gweithlu erbyn diwedd 2019. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dilyn y mater hwn gyda hwy yn yr hydref, o ran sut maent yn gweithio i fynd i'r afael â phroblemau gweithlu ar draws y system, gan gynnwys dibyniaeth ar staff asiantaeth, yn ogystal â sut maent yn helpu i wella'r arfer o gynllunio gweithlu.

Ar wahân i'r gwaith hwn, nid oes gennym gynlluniau ar unwaith i edrych ar wariant y GIG ar staff asiantaeth, ond rydym yn adolygu blaenoriaethau ein rhaglen waith yn rheolaidd, felly rwyf wedi gofyn i'r Clerc ei gynnwys ar ein rhaglen dreigl er mwyn ei ystyried yn nes ymlaen.

Yn gywir,

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon